

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Powys

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Powys i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Powys fodloni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a bodloni un ohonynt yn rhannol. O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Powys 7 ohonynt yn llawn ac 1 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 2 ohonynt.

Mae gwasanaeth llyfrgell Powys yn parhau i gyflawni'n dda ar gyfer ei gymunedau gwasgaredig, gyda gwelliannau wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd, y mae tystiolaeth ohonynt i'w gweld mewn datganiad manwl a thrylwyr. Cynhaliwyd yr oriau agor, ac mae'r gwasanaeth wedi ehangu ei ddarpariaeth o ran hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau, ac wrth ddatblygu gwasanaethau darllen ar y cyd. Mae cyfraniad partneriaid a gwirfoddolwyr yn hanfodol i'r datblygiadau hyn fodd bynnag. Mae'r gwariant cymesur ar ddeunyddiau yn dal i fod yn isel iawn, ond mae'r gwasanaeth wedi gwella ei fuddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg, gan ei alluogi i gyrraedd y safon, ac mae hefyd yn bodloni'r gofynion o ran bodloni ceisiadau. Erys arwyddion y gallai'r cyllidebau grebachu, gydag adolygiad o'r gwasanaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus wedi'u cynllunio ar gyfer 2019/20, gan fwydo i'r gwaith o ddatblygu strategaeth gwasanaethau diwygiedig, a rhoi modelau gwasanaeth newydd ar waith. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r effaith a gaiff unrhyw newidiadau i'r seilwaith cyflawni cyfredol ar gymunedau mwy gwledig Powys, a'u mynediad at ystod lawn o wasanaethau llyfrgell.

- Mae pob man gwasanaeth yn darparu cymorth llawn ar gyfer datblygiad unigol, ac mae'r cymorth ar gyfer iechyd a lles wedi cael ei ymestyn yn 2018/19. Mae bodddhad cwsmeriaid yn gryf ar y cyfan, gyda 94% o oedolion yn dweud bod y llyfrgell yn 'dda' neu'n 'dda iawn' ar y cyfan.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi mwy na dyblu, ond erys y perfformiad o ran hyn islaw'r lefel ganolrifol i Gymru.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi cynyddu hefyd ers 2017/18, ond mae'r ffigurau mynychu cyfartalog yn dal i fod ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.
- Mae'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd wedi gwella mewn rhai meysydd ac wedi gwaethygu mewn meysydd eraill; erys lefelau benthyca ymhlith oedolion yn gymharol uchel, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda o ran y defnydd o adnoddau electronig.
- Erys gwariant ar adnoddau ymhlith yr isaf yng Nghymru fel cyfran, ond mae gwell buddsoddiad mewn deunyddiau Cymraeg wedi sicrhau bod DA 10 wedi'i gyflawni yn 2018/19. Mae Powys hefyd yn cyflawni'r targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA 12).
- Mae lefelau staffio wedi gostwng ychydig ers 2018/19, ond mae Powys yn parhau i gyflawni'r targed a bennwyd ar gyfer staff cymwysedig, sef un o chwe awdurdod yn unig sy'n gwneud hynny bellach. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gael budd mawr o gyfraniad ei wirfoddolwyr.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Powys yn parhau i gyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn cyflawni HG6 yn rhannol, lle y codir ffi am fenthyciadau rhwng llyfrgelloedd oddi wrth awdurdodau eraill yng Nghymru (sy'n adlewyrchu'r costau sydd ynghlwm os nad oes cynllun benthyca rhwng llyfrgelloedd rhanbarthol ledled y sir). Drwy barhau i weithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau partner a gwirfoddolwyr gellir rhoi mynediad at wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau. Mae adolygiad o'r gwasanaeth ac ymgynghoriad â'r cyhoedd wedi cael eu cynnal yn 2019/20 a bydd y rhain yn bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu strategaeth ddiwygiedig i'r gwasanaeth.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Powys yn cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	x	Heb ei gyflawni
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	✓	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x	

DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	✓	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mae gwasanaeth Powys wedi gwella ei berfformiad ers 2017/18, ac mae bellach yn cyflawni'r gofynion ar gyfer adnoddau Cymraeg (DA 10) a chyflenwi ceisiadau (DA 12) yn llawn.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cwblhaodd Powys ei arolwg o ddefnyddwyr i oedolion ym mis Tachwedd 2018 ac mae'n bwriadu cwblhau ei arolwg o bobl ifanc yn ystod hydref 2019. Unwaith eto, nid oedd y gwasanaeth yn gallu nodi ffigurau ar gyfer gwerthusiad defnyddwyr o'r hyfforddiant a gynigir ganddo, gan gyfeirio at adnoddau staffio a'r nifer mawr o ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan bartneriaethau allanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	dd/b		60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	88%	8/15	38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	dd/b		80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Powys bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Y Cynnig Darllen – effaith 'Bingo Llyfrau', sef gweithgarwch datblygu darllenwyr i oedolion, a gynhaliwyd ym mhob llyfrgell er mwyn annog rhieni i ymuno yn Her Darllen

yr Haf. I un darlennydd, roedd yn gyfle i roi cynnig ar genres newydd, a dysgu am hanes lleol, llenyddiaeth ac iaith - antur lenyddol wych.

- Y Cynnig Digidol - buddiannau'r cymorth a roddwyd gan y llyfrgell i unigolyn a oedd yn defnyddio adnoddau'r llyfrgell i chwilio am waith. Gwnaeth staff y llyfrgell ei helpu gyda'i CV, ac i ddefnyddio'r cyfleusterau cyfrifiaduron ac argraffu; roedd CV 'proffesiynol' wedi rhoi hwb i'w hyder ac wedi'i helpu i lwyddo mewn cyfweliad.
- Y Cynnig Iechyd – prosiect i sefydlu sesiynau darllen ar y cyd, gyda chyllid allanol a ddefnyddiwyd i hyfforddi staff / gwirfoddolwyr i gynnal sesiynau mewn llyfrgelloedd, lleoliadau cymunedol a chartrefi pobl. Mae nifer o grwpiau wedi cael eu sefydlu ac mae'r gwasanaeth wedi cysylltu â sefydliadau partner, gan dargedu cymorth i bobl sy'n byw gyda dementia.
- Y Cynnig Diwylliannol - buddiannau llesiant menter mewn un llyfrgell leol i agor fore dydd Nadolig a gwahodd y gymuned i mewn. Daeth dros 60 o bobl, yr oedd llawer ohonynt yn bobl hŷn heb deulu'n lleol – roedd y cyfle i ddod ynghyd â ffrindiau a chymdogion wedi rhoi pleser mawr i un a fu'n bresennol.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Powys ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	68%	10/15	24%	82%	96%	76%
c) iechyd a lles	57%	=11/15	33%	62%	94%	69%
d) lle diogel a chroesawgar	97%	=7/15	90%	97%	100%	99%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	81%	14/14	81%	91%	98%	74%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	95%	13/14	93%	99%	100%	90%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	78%	=10/13	65%	91%	95%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	94%	=12/14	93%	97%	99%	95%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b		8.5	9.3	9.5	8.8
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	24	=16/22	13	30	208	11
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	93	18/22	15	199	433	98
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth	153	20/22	91	295	689	97

DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	4,042	10/22	2,596	3,969	7,170*	4,065
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	1,367	5/22	345	885	2,205	1,346
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	165	7/22	58	150	251	147
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²	780	9/22	95	602	1,424	512
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	11	6/22	5	10	14	9
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	17%	=20/22	14%	25%	63%	19%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	128	3/21	3	30	214	113
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	3,500	4/21	90	1,477	9,806	2,490
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth						
b) % ar staff	£13,570	8/22	£7,181	£12,145	£19,449	£15,749
% ar adnoddau gwybodaeth	58%	15/22	47%	62%	78%	49%
% ar offer ac adeiladau	8%	22/22	8%	13%	21%	8%
% ar gostau gweithredol eraill	2%	18/22	0.4%	4%	25%	5%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	32%	4/22	0.3%	16%	37%	37%
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£2,095	6/22	£0	£467	£8,829	£699
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£1.39	=17/22	£1.18	£1.82	£2.52	£1.52
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.17%	=20/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.61%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	2.03%	16/20	0.00%	0.28%	7.99%	4.79%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Powys ei arolwg o ddefnyddwyr i oedolion ym mis Tachwedd 2018 ac mae'n bwriadu cwblhau ei arolwg o bobl ifanc yn ystod hydref 2019. Erys cyfraddau boddhad yn eithaf cryf, gyda gwelliant penodol yn y gyfradd ar gyfer darpariaeth TG (wedi gwella o 45% yn 2015 i 78%); mae 94% o oedolion yn credu bod y llyfrgell yn 'dda' neu'n 'dda iawn' ar y cyfan. Mae pob man gwasanaeth sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles, gyda darpariaeth estynedig i grwpiau darllen ar y cyd yn benodol. Mae'r niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi mwy na dyblu yn 2018/19, ond maent yn dal islaw'r lefel ganolrifol i Gymru, ac mae'r niferoedd sy'n cael hyfforddiant anffurfiol yn aros ar yr un lefel.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Cyngor Powys yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad at fannau gwasanaeth, gyda 16 llyfrgell ar agor am 10+ awr yr wythnos yn gwasanaethu ei boblogaeth wasgaredig. Fodd bynnag, erys yn un o'r nifer bach o awdurdodau llyfrgell nad ydynt yn gallu darparu digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'r llyfrgelloedd hyn. Mae'r gwasanaeth yn anelu at gynhwysiant, ond cydnabyddir yr anawsterau o ran rhoi cymorth o'r fath mewn nifer mawr o fannau gwasanaeth llyfrgell bach, yn enwedig ar gyfer awdurdodau gwledig tenau eu poblogaeth. Er bod y niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi cynyddu ers 2017/18, mae'r ffigurau mynychu cyfartalog yn dal i fod ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae nifer yr ymweliadau â safleoedd llyfrgelloedd, nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir hefyd wedi lleihau, ond erys lefelau benthycyca ymhlith oedolion yn gymharol sefydlog. Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r defnydd o'r we, nifer y benthycwyr gweithredol, a nifer yr adnoddau i blant a fenthycir oll wedi cynyddu, a hefyd y defnydd o adnoddau electronig (tuedd a welir ledled Cymru) gyda lawrlwythiadau y pen ar gyfartaledd yn nodedig o uchel, sy'n adlewyrchu'n dda ar y gwaith hyrwyddo yn y maes hwn.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Bu gostyngiad ymddangosiadol yn y gwariant ar ddeunyddiau ers 2017/18, ond nodir bod hyn yn adlewyrchu problemau gydag adroddiadau ariannol diwedd blwyddyn, ac mae'r gwasanaeth yn credu bod gwariant gwirioneddol wedi parhau ar yr un lefel fwy neu lai. Erys cyfran y gyllideb a werir ar ddeunyddiau yn nodedig o isel o gymharu ag awdurdodau eraill, ac mae'r gwasanaeth yn dal i fethu â chyflawni'r targedau o ran hyn. Mae buddsoddiad cynyddol mewn adnoddau Cymraeg wedi arwain at gyflawni DA 10 yn 2018/19, gyda chynnydd cysylltiedig yn nifer yr adnoddau Cymraeg a fenthycir, ac mae gwariant ar ddeunyddiau i blant hefyd wedi gwella, yn unol â blaenoriaethau'r gwasanaeth a nodwyd. Mae'r ffigurau ar gyfer y ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol yn uwch, gan fod y gwasanaeth yn nodi amrywiaeth eang o gyfleusterau cyfrifiaduron personol nad cynhwyswyd yn y datganiad y llynedd, ond mae lefelau defnyddio yn parhau i ostwng, sef tuedd a welir mewn mannau eraill wrth i'r defnydd a wneir o ddarpariaeth WiFi gynyddu. Cafodd problemau gyda chyflenwi ceisiadau eu datrys yn 2018/19, ac mae'r targedau o ran hyn bellach yn cael eu cyflawni, gan alluogi'r gwasanaeth i gyflawni DA 12.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio wedi gostwng ychydig ers 2018/19, ond mae Powys yn parhau i gyflawni'r targed a bennwyd ar gyfer staff cymwysedig, sef un o chwe awdurdod yn unig sy'n gwneud hynny bellach. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth hefyd yn bodloni'r gofynion ar gyfer hyfforddiant / datblygiad y staff. Mae nifer y gwirfoddolwyr a chyfanswm oriau gwirfoddolwyr wedi parhau i gynyddu, gyda recriwtio o ran hyn yn helpu i ddarparu sesiynau darllen ar y cyd i bobl sy'n byw gyda dementia.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw ar y gwasanaeth wedi gostwng, ond ymddengys bod hyn yn ymwneud yn bennaf â chostau gweithredol yn hytrach na staffio a deunyddiau. Mae cyfanswm yr oriau agor wedi parhau ar yr un lefel fwy neu lai, gyda'r perfformiad yn bodloni'r gofynion a bennwyd.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Powys yn parhau i gyflwyno adroddiad ar ei gyfraniad o dan themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru, gan gyfeirio at nifer o wasanaethau a mentrau sefydledig: cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a mynediad at wasanaethau (*Ffyniannus a Diogel*); gweithio gyda phartneriaid i gefnogi iechyd a lles, gan gynnwys darpariaeth newydd Darllen yn Well: Llyfrau ar Bresgripsiwn ar gyfer Dementia yn 2018 (*Iach ac Egniol*); cynnig cyfleoedd dysgu i bob oedran (*Uchelgeisiol ac yn Dysgu*) a pharhau i roi mynediad i bawb drwy ei rwydwaith o lyfrgelloedd a gwasanaethau teithiol (*Unedig a Chysylltiedig*).

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Powys yn parhau i dynnu sylw at heriau'r cyd-destun ariannol y mae'n gweithredu ynddo, gyda phwyslais ar gydweithio o fewn y cyngor a'r trydydd sector a phartneriaid cymunedol. Fodd bynnag, nodir y tebygolrwydd y bydd gwasanaethau yn cael eu hailstrwythuro a'u symleiddio ymhellach er mwyn bodloni gofynion cyllidebol. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ystyried ffrydiau incwm newydd, ac mae hefyd yn edrych ar y potensial i symud i statws ymddiriedolaeth. Mewn manau eraill yn y datganiad, cyfeirir at gwblhau adolygiad o'r gwasanaeth ac ymgynghoriad â'r cyhoedd yn ystod 2019/20, a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu strategaeth ddiwygiedig i'r gwasanaeth a rhoi modelau cyflawni newydd ar waith o 2021.

6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgell Powys yn parhau i gyflawni'n dda ar gyfer ei gymunedau gwasgaredig, gyda gwelliannau wedi'u gwneud mewn nifer o feysydd, y mae tystiolaeth ohonynt i'w gweld mewn datganiad manwl a thrylwyr. Cynhaliwyd yr oriau agor, ac mae'r gwasanaeth wedi ehangu ei ddarpariaeth o ran hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau, ac wrth ddatblygu gwasanaethau darllen ar y cyd. Mae cyfraniad partneriaid a gwirfoddolwyr yn hanfodol i'r datblygiadau hyn fodd bynnag. Mae'r gwariant cymesurol ar ddeunyddiau yn dal i fod yn isel iawn, ond mae'r gwasanaeth wedi gwella ei fuddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg, gan ei alluogi i gyrraedd y safon, ac mae hefyd yn bodloni'r gofynion o ran bodloni ceisiadau. Erys arwyddion y gallai'r cyllidebau grebachu, gydag adolygiad o'r gwasanaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus wedi'u cynllunio ar gyfer 2019/20, gan fwydo i'r gwaith o ddatblygu strategaeth gwasanaethau diwygiedig, a rhoi modelau gwasanaeth newydd ar waith. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r effaith a gaiff unrhyw newidiadau i'r seilwaith cyflawni cyfredol ar gymunedau mwy gwledig Powys, a'u mynediad at ystod lawn o wasanaethau llyfrgell.

ⁱMae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.